

Tystysgrif Cymhwysedd Athrawon

Cynllun Peilot, 2015-16

Adroddiad y Prif Arholwr ar y Cymedrolï

Mae pawb a fu'n ymwneud â'r dystysgrif hon eleni'n ddyledus iawn i Joanna Evans a Catrin Williams a thrylwyredd eu trefniadau a'u gwaith gyda'r data yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cymerodd y ddwy yr awenau ar ôl i Rhian Davies newid swydd. Rhaid diolch hefyd i arweinwyr y canolfannau, i'r ysgolion am eu croeso ac i'r hyfforddeion a arsylwyd am eu hymateb cadarnhaol i'r adborth. Roeddwn i hefyd fel prif arholwr yn pwysu'n drwm ar arbenigedd a phrofiad Manon Wyn Siôn, y cymedrolwr uwchradd, a Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd.

Gwnaed cryn waith yn ystod y flwyddyn ar ddogfennaeth y dystysgrif, yn llawlyfrau a pheccynnau i fyfyrwyr a chanolfannau. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd er mwyn trafod gweithdrefnau, gyda chynrychiolwyr y canolfannau, y cymedrolwyr uwchradd a chynradd a'r prif arholwr yn bresennol.

Safodd 145 o hyfforddeion y dystysgrif, a manylir ar eu cyrhaeddiad isod fesul sector.

Uwchradd

Safodd 56 o hyfforddeion uwchradd y dystysgrif, o'r canolfannau canlynol:

Y Gogledd a'r Canolbarth – 24

Y De Ddwyrain – 15

Y De Orllewin – 17

Yn rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, cafodd pob un o'r hyfforddeion hyn:

- sesiynau Gloywi Iaith yn eu sefydliadau eu hunain,
- dau gwrs undydd (yn Aberystwyth),
- hyfforddiant ac adroddiadau ar arsylwadau gwersi gan Fentoriaid Iaith yn ystod eu dau gyfnod o Brofiad Ysgol.

Dyma dabl sy'n dangos y **dyfarniadau uwchradd terfynol dros y dystysgrif gyfan**, fesul canolfan ac yn genedlaethol:

	Y De Ddwyrain	%	Y De Orllewin	%	Y Gogledd a'r Canolbarth	%	Cenedlaethol	%
Anfoddfaol	1	7%	1	6%	0	0%	2	4%
Digonol	3	20%	2	12%	3	13%	8	14%
Da	8	53%	14	82%	12	50%	34	61%
Rhagorol	3	20%	0	0%	9	38%	12	21%
Cyfanswm	15		17		24		56	

1. Asesiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion uwchradd

Paratowyd dau bapur ysgrifenedig uwchradd fel bod hyfforddeion pob canolfan yn gallu sefyll yr arholiad ysgrifenedig yn ystod cyfnodau cyfleus.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion uwchradd yn genedlaethol yn y papurau ysgrifenedig:

Anfoddhaol:	4%
Digonol:	21%
Da:	48%
Rhagorol:	27%

Gwelodd y prif arholwr bob sgrïpt a oedd yn methu, pob un o'r sgrïptiau ffiniol (rhng dwy safon) a sampl o sgrïptiau gan bob marciwr.

Roedd yr hyfforddeion a oedd yn cyrraedd safon Rhagorol yn cywiro'r rhan helaethaf o'r gwallau, yn gallu cynhyrchu trawsieithiad a oedd yn llifo'n rhwydd yn Gymraeg ac yn cynnwys y pwyntiau a ddisgwyliid, a hefyd yn ysgrifennu darn rhydd cywir i raddau helaeth gan ateb disgwyliadau'r cwestiwn yn llawn.

Argymhellion o ran marcio'r papurau ysgrifenedig

- Mae angen sicrhau bod pob marciwr yn pwysoli'r meini prawf (cywirdeb, cywair ac ati) yn yr un ffordd. Bydd angen trafodaeth i bennu'r pwysoli.
- Dylid ystyried cael y pwysoli ar ffurf fformiwla barod ar y daflen farciau fel y gellir defnyddio marciau i nodi safon pob maen prawf, yn hytrach na thiciau fel y gwneir ar hyn o bryd.

2. Asesiad o allu hyfforddeion i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Safon Llythrennedd personol**
- **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr**

Cyrhaeddiad yr hyfforddeion:

- Barnwyd mai tri hyfforddai o'r 56 yn y garfan a oedd yn cyrraedd safon Rhagorol yn nwy ran yr asesiad. Roedd chwech arall yn pontio rhng safon Rhagorol a Da iawn. Mae hyn yn 16% o'r hyfforddeion, o'i gymharu â'r 27% a gyrhaeddodd safon Rhagorol yn y papur ysgrifenedig.
- Roedd tua thraean yr hyfforddeion yn cyrraedd safon Da iawn yn nwy ran yr asesiad, a rhyw draean arall yn cyrraedd safon Digonol. Roedd pumed ran yr hyfforddeion yn pontio rhng safon Da iawn a safon Digonol.
- Un hyfforddai'n unig y barnwyd bod ei safon yn Anfoddhaol.

Trefnu'r ymweliadau cymedroli

Ar sail yr adroddiadau gwersi manwl a chyson a'r adroddiadau crynodol gan y Mentoriaid Iaith ar ddiwedd ail gyfnod y Profiad Ysgol, ac adroddiadau arsylwadau Tiwtoriaid Iaith y canolfannau, trefnodd Manon Siôn, Cydlynnydd Cenedlaethol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, daith gymedroli a oedd yn cynnwys 22 fyfyrwr o'r garfan o 56 myfyrwr. Llwyddwyd i gwmpasu pob gradd o fewn pob canolfan, a sicrhawyd bod y cymedrolwyr yn gwneud peth gwaith cymedroli ar y cyd. Cyn dechrau, cynhaliwyd cyfarfod ffôn i gadarnhau'r trefniadau ac i sicrhau cysondeb yn ystod y broses.

Y cymedrolwyr a arsylwodd ar wersi'r hyfforddeion oedd:

- Manon Siôn (Prif Gymedrolwr)
- Marged Cartwright a Kelly Morgan, a oedd hefyd yn Fentoriaid Iaith yn eu hysgolion eu hunain
- Elin Meek (Prif Arholwr, a gymedrolodd ddau hyfforddai o bob safon ac o bob canolfan)

Derbyniodd y Prif Arholwr:

- Adroddiadau o arsylwadau gwersi ac adroddiadau crynodol y Mentoriaid Iaith ar y myfyrwyr a gymedrolwyd ganddi cyn mynd allan i arsylwi, ynghyd â hanner dwsin o fyfyrwyr eraill nas arsylwyd dros Gymru a oedd yn cynrychioli ystod o raddau.
- Adroddiadau cymedroli'r cymedrolwyr eraill.

Gwelwyd tystiolaeth eglur o adroddiadau trylwyr iawn gan y Mentoriaid Iaith yn ddieithriad gyda sylwadau adeiladol i wella safon iaith yr hyfforddeion ac awgrymiadau cyffredinol i wella'r addysgu. Yn hynny o beth, caiff yr hyfforddeion arweiniad gwerthfawr iawn yn ieithyddol ac o ran eu haddysgu. Amlygwyd yn yr adroddiadau i gynnydd ddigwydd yn ystod y Profiad Dysgu wrth i'r hyfforddeion fagu hyder. Wrth sgwrsio â'r Mentoriaid Iaith yn ystod yr ymweliadau cymedroli, roedd eu hymrwymiad i godi safon iaith yr hyfforddeion yn amlwg ynghyd â'u parodrwydd i wneud mwy na'r gofyn. Nododd sawl un ei bod hi'n resyn nad oedd modd estyn y cynllun i gynnwys blwyddyn gyntaf athrawon sydd newydd gymhwyso.

Sylwadau am y cymedroli:

- Roedd y cymedrolwyr yn cytuno â'r Mentoriaid Iaith ynghylch graddau terfynol cyffredinol yr hyfforddeion, er y nodid weithiau fod Mentor yn gallu bod fymryn yn hael neu'n llym. Mân wahaniaethau oedd y rhain, fodd bynnag.
- Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r cymedrolwyr ei gweld ar gyfer cymedroli Rhan 2 yr adroddiad crynodol – **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr** – yn anwastad. Roedd rhai hyfforddeion wedi darparu lluo o enghreifftiau o adnoddau a ddefnyddiwyd yn ystod y Profiad Dysgu i feithrin llythrennedd y

dysgwyr ynghyd ag enghreifftiau o dasgau wedi'u hasesu ond roedd ffeiliau eraill yn denau, gydag adnoddau'r wers a gafodd ei harsylwi'n unig ar gael i'w gweld.

- Gwelwyd tystiolaeth yn ffeiliau rhai hyfforddeion o adroddiadau mentoriaid cyffredinol, yn ogystal â'r Mentoriaid Iaith. Roedd rhai enghreifftiau lle roedd hi'n amlwg fod trafod a chytuno'n digwydd, ond enghraifft hefyd lle roedd asesiad y mentoriaid cyffredinol ac asesiad y Mentoriaid Iaith o llythrennedd personol yr hyfforddai a'i allu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr yn amrywio.
- Teimlid bod 'Rhagorol' yn cwmpasu ystod fawr o farciau (30) ac y gellid cael llai o ystod.
- Daeth i'r amlwg fod ansawdd tystiolaeth Rhan 2 yr adroddiad crynodyn yn dibynnu'n fawr ar arfer yr adrannau unigol yr oedd yr hyfforddeion yn cael Profiad Dysgu ynddynt. Roedd rhai adrannau (ym maes y dyniaethau'n bennaf, ond nid yn ddiethriad) yn arwain ar llythrennedd a'r hyfforddeion o'r herwydd yn elwa o fabwysiadu arferion rhagorol. Ar y llaw arall, lle nad oedd adran yn ymgorffori gweithgareddau i feithrin llythrennedd dysgwyr yn rhan arferol o wersi, roedd tuedd i hyfforddeion ychwanegu gweithgareddau llythrennedd allan o'u cyd-destun.

Argymhellion i'r dyfodol

- Sicrhau bod cysondeb rhwng pob Canolfan Hyfforddi o ran y dystiolaeth o'u gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr y disgwylir i'r hyfforddeion ei darparu at ddibenion cymedrol.
- Sicrhau bod cysondeb rhwng asesiad mentoriaid cyffredinol a mentoriaid iaith mewn ysgolion unigol o safon llythrennedd personol hyfforddeion a'u gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr.
- Ystyried cael llai o ystod o farciau i'r radd 'rhagorol'.
- Ystyried sut gellir sicrhau bod hyfforddeion y mae eu Cymraeg yn amlwg yn gadarn iawn ac sy'n gallu cyrraedd safon Rhagorol yn y papur ysgrifenedig ac o ran elfen llythrennedd personol wrth addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, hefyd yn gallu cyrraedd yr un safon o ran y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr.
- Yn ddelfrydol, petai arian ychwanegol ar gael, ymestyn y cynllun fel bod athrawon newydd gymhwyso'n cael cymorth ieithyddol yn ystod blwyddyn gyntaf eu swyddi yn ogystal.

Cynradd

Safodd 89 o hyfforddeion cynradd y dystysgrif, o'r canolfannau canlynol:

Y Gogledd a'r Canolbarth – 43

Y De Ddwyrain – 20

Y De Orllewin – 26

Dyma dabl sy'n dangos y **dyfarniadau cynradd terfynol dros y dystysgrif gyfan**, fesul canolfan ac yn genedlaethol:

	Y De Ddwyrain	%	Y De Orllewin	%	Y Gogledd a'r Canolbarth	%	Cenedlaethol	%
Anfoddhaol	1	5%	1	4%	5	12%	7	8%
Digonol	7	35%	7	27%	11	26%	25	28%
Da	7	35%	11	42%	18	42%	36	40%
Rhagorol	5	25%	7	27%	9	21%	21	24%
Cyfanswm	20		26		43		89	

3. Asesiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion cynradd

Paratowyd dau bapur ysgrifenedig cynradd fel bod hyfforddeion pob canolfan yn gallu sefyll yr arholiad ysgrifenedig yn ystod cyfnodau cyfleus.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion yn genedlaethol yn y papurau ysgrifenedig:

Rhagorol: 18%

Da: 43%

Digonol: 26%

Anfoddhaol: 13%

Gwelodd y prif arholwr bob sgrïpt a oedd yn methu, pob un o'r sgrïptiau ffiniol (rhwng dwy safon) a sampl o sgrïptiau gan bob marciwr.

Roedd yr hyfforddeion a oedd yn cyrraedd safon Rhagorol yn cywiro'r rhan helaethaf o'r gwallau, yn gallu cynhyrchu trawsieithiad a oedd yn llifo'n rhwydd yn Gymraeg ac yn cynnwys y pwyntiau a ddisgwyliid, a hefyd yn ysgrifennu darn rhydd cywir i raddau helaeth gan ateb disgwyliadau'r cwestiwn yn llawn.

Argymhellion o ran marcio'r papurau ysgrifenedig

- Mae angen sicrhau bod pob marciwr yn pwysoli'r meini prawf (cywirdeb, cywair ac ati) yn yr un ffordd. Bydd angen trafodaeth i bennu'r pwysoli.

- Dylid ystyried cael y pwysoli ar ffurf fformiwla barod ar y daflen farciau fel y gellir defnyddio marciau i nodi safon pob maen prawf, yn hytrach na thiciau fel y gwneir ar hyn o bryd.

4. Asesiad o allu hyfforddeion i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Safon Llythrennedd personol**
- **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr**

Cyrhaeddiad yr hyfforddeion:

- Barnwyd bod bron i chwarter yr hyfforddeion (22) yn y garfan o 89 yn cyrraedd safon Rhagorol yn nwy ran yr asesiad. Roedd hanner dwsin arall yn pontio rhwng safon Rhagorol a Da iawn.
- Roedd bron i draean yr hyfforddeion yn cyrraedd safon Da iawn yn nwy ran yr asesiad, ac ychydig dros chwarter yn cyrraedd safon Digonol. Roedd llai na degfed ran yr hyfforddeion yn pontio rhwng safon Da iawn a safon Digonol.
- Ni farnwyd bod safon unrhyw hyfforddai'n Anfoddhaol.

Trefnu'r ymweliadau cymedroli

Arsylwodd Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd 10 gwrs.

- 3 yng Nghanolfan y De-ddwyrain (1 gyda'r prif arholwr)
- 3 yng Nghanolfan y De-orllewin (1 gyda'r prif arholwr a'r mentor dosbarth yn bresennol hefyd)
- 4 yng Nghanolfan y Gogledd (1 gyda'r prif arholwr, 3 gyda'r tiwtor coleg).
Roedd 5 yn y sampl gwreiddiol ond cafodd un hyfforddai ddamwain car fore'r ymweliad.

Sylwadau am y cymedroli

- I raddau helaeth iawn, roedd y cymedrolwr a'r prif arholwr yn cytuno â'r dyfarniad a roddwyd i'r hyfforddeion. Serch hynny, gwelwyd ambell enghraifft lle roedd mentoriaid dosbarth yn pennu marciau'n gynnar yn y broses, weithiau heb drafodaeth â thiwtor coleg, a'r hyfforddeion wedi gwella yn y cyfamser.
- Roedd cael trafodaeth â'r tiwtor coleg yng Nghanolfan y Gogledd wrth arsylwi gwrsi'n hynod fuddiol. Cafwyd cyfle i ymgynghori â mentoriaid dosbarth/uwch fel arfer, ac yn achos un ganolfan, arsylwyd gyda'r mentor dosbarth a thrafodwyd â phob un.
- Roedd y ffaith fod yr asesiadau i gyd ar-lein mewn dwy ganolfan yn golygu nad oedd modd i'r canolwr /prif arholwr eu gweld cyn arsylwi'r hyfforddeion. Roedd hyn yn golygu mai marc moel yn unig oedd ar gael, yn wahanol i'r drefn yn yr uwchradd lle gwelwyd nid yn unig farciau'r hyfforddeion a arsylwyd, ond ystod o rai eraill hefyd.

- Dywedodd rhai mentoriaid y byddent yn gwerthfawrogi mwy o arweiniad ar safoni. Cafwyd un enghraifft o fentor a ddigwyddodd gael barn gyffredinol tiwtoriaid coleg am hyfforddai a hynny'n rhoi hyder iddi roi marc uchel i'r hyfforddai.
- Roedd ambell enghraifft lle roedd bwlch rhwng safon sgiliau iaith personol hyfforddeion a'u gallu i ddatblygu sgiliau iaith disgyblion – yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Roedd gallu'r hyfforddeion i ddatblygu sgiliau iaith disgyblion yn uwch na safon eu sgiliau iaith personol.
- Nid oedd defnydd adeiladol gan yr hyfforddeion o'r llyfrynnau targedau ieithyddol a ddosberthir mewn un ganolfan.
- Gwelwyd gwaith wedi'i farcio gan rai hyfforddeion.
- Prin y gwelwyd gwaith gwreiddiol wedi'i baratoi gan hyfforddeion. Defnyddiwyd adnoddau'r sir neu adnoddau oddi ar Hwb, a hynny'n ddigon derbyniol wrth gwrs, ond felly nid oedd modd asesu ansawdd iaith llawer o'r adnoddau. Gwaetha'r modd, amlygodd un hyfforddai a aeth i gryn ymdrech i greu deunyddiau gwreiddiol pa mor wallus oedd ei Gymraeg ysgrifenedig wrth wneud hynny.
- Efallai y gellid defnyddio'r ystod marciau 'rhagorol' yn ehangach; roedd tuedd i gadw at y 70%–80%.
- Clywyd bod mentoriaid ysgol (yng Nghanolfan y Gogledd) wedi elwa'n fawr o'r cwrs i'r mentoriaid/uwch fentoriaid a'r mentor ysgol, ond bod nifer o ysgolion heb anfon cynrychiolwyr. Os nad oedd mentor wedi mynychu'r hyfforddiant canolog, trefnwyd i diwtor ymweld â phob ysgol i roi hyfforddiant 1 i 1. Roedd tiwtoriaid coleg wedi mynychu'r hyfforddiant cychwynnol.
- Arfer da oedd trefn lle roedd y tiwtor coleg yn trafod â'r mentor dosbarth cyn i'r tiwtor coleg lenwi'r grid asesu, neu fod y ddau'n llenwi'r grid asesu ar y cyd, a'r mentor dosbarth wedyn yn mynd ati i bennu'r targedau.
- Awgrymodd y tiwtor coleg y byddai rhoi 2a/2b/2c yn y colofnau yn hwyluso'r broses o ddyfarnu marc.
- Rhoddodd un ganolfan gyfarwyddyd i fyfyrwyr addysgu gwers bynciol – er mwyn eu gweld yn datblygu sgiliau llythrennedd disgyblion yn drawsgwricwlaidd – er na welwyd hynny mewn dwy o'r pedair sesiwn a arsylwyd.

Argymhellion:

- Drwy hyfforddiant, sefydlu arferion cyffredin ledled y tair canolfan o ran trefn pennu marciau hyfforddeion am yr elfen hon o'r Dystysgrif Cymhwysedd Athrawon.
- Os yw'n bosibl, sicrhau bod modd i'r canolwr/prif arholwr gael sgwrs â'r mentor dosbarth/uwch fentor (a'r tiwtor coleg rywbryd ar hyd y daith) ynghylch y modd y pennwyd y marciau, a bod yr adroddiadau ar-lein ar gael i'w gweld ar gyfer yr hyfforddeion a arsylwir ac ystod o rai eraill hefyd.

- Ystyried cael 'mentor iaith' penodol ym mhob ysgol gynradd i ganolbwyntio ar feini prawf y Dystysgrif hon os oes modd, e.e. y cydlynnydd llythrennedd. Mae'r drefn hon yn gweithio'n dda yn yr ysgolion uwchradd ond byddai angen arian ychwanegol i wneud hynny, wrth gwrs.
- Yn achos yr hyfforddeion a arsylwir gan y cymedrolwr/prif arholwr, cadarnhau'r arfer o wneud yn siŵr fod ffeil cynlluniau gwersi, ffeil adnoddau ac enghreifftiau o farcio ar gael i'w gweld.
- Mireinio'r radd a bennir, e.e. rhoi 2a/2b/2c yn y colofnau er mwyn hwyluso'r broses o ddyfarnu marc terfynol am y ddwy agwedd.
- Edrych eto ar yr ystod marciau 'rhagorol' a gweld a ellir ei mireinio.
- Roedd amseru'r dyfarnu marciau'n amrywio o ganolfan i ganolfan. Roedd un ganolfan yn hwyr yn eu cyflwyno i'r CCC ond roedd y marciau'n nes ati o'r herwydd.

Elin Meek
5 Gorffennaf 2016

Atodiad:

Nodweddion hyfforddeion 'rhagorol' cynradd a arsylwyd:

- cyflwyno nod gwersi'n rhagorol
- cyflwyno hyderus, byrlymus, bywiog ac ystyrion
- amrywio'r llais yn ddramatig, e.e. i gymeriadau, wrth ddarllen stori
- pwysleisio geiriau allweddol a rhai wedi'u treiglo
- ynganu rhagorol
- defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gyfoethogi geirfa a chystrawennau
- sicrhau bod geirfa / patrymau'n glywadwy ac yn weladwy mewn amryfal ffyrdd
- modelu patrymau brawddegau'n gadarn
- defnyddio'r llais ac ystum i gyfleu ystyr geiriau, e.e. sleifio
- cwestiynu cywir, effeithlon a phwrpasol
- herio disgyblion i fanylu wrth ymateb
- cywiro gwallau – ar lafar drwy ailadrodd yr ateb yn gywir
- cywiro gwallau ysgrifenedig, gydag anodi graenus a sylwadau craff yn nodi'r ffordd ymlaen
- adnoddau ysgrifenedig graenus eu Cymraeg
- ffeiliau toreithiog yn dangos adnoddau iaith ysgrifenedig cyfoethog ac ymestynnol gyda gafael gadarn a chywir ar eirfa a thermau
- darparu arweiniad cadarn a chynllunio cwestiynau penodol i'r cynorthwywyr dosbarth eu holi yn ystod y gweithgareddau
- darparu cyfleoedd sy'n sicrhau bod sgiliau llythrennedd ac iaith disgyblion yn camu ymlaen ym mhob gwers

Nodweddion hyfforddeion 'digonol' cynradd a arsylwyd:

- diffyg tystiolaeth o iaith gyfoethog, rywiog yn y cyflwyno ac yn yr adnoddau
- diffygion treiglo sylfaenol ar lafar ac yn yr adnoddau i'r disgyblion
- methu negyddu brawddegau'n gywir bob amser
- methu ffurfio cwestiynau'n gywir bob amser
- defnyddio ambell air Saesneg hwnt ac yma
- diffyg arweiniad i gynorthwywyr dosbarth er mwyn bwydo iaith
- diffyg egluro adnoddau cyn eu rhoi i ddisgyblion
- diffyg gwirio iaith adnoddau cyn eu rhoi i ddisgyblion
- diffyg agweddau ar iaith yn y meini prawf llwyddiant
- ychydig iawn o ystyriaeth i anghenion ieithyddol disgyblion i'w galluogi i gyflawni tasgau
- diffyg ailadrodd a chywiro atebion ar lafar
- y gwaith a wahaniaethwyd heb fod yn herio'r goreuon neu'n anaddas iddynt, h.y. ymhell y tu hwnt i'w gallu, e.e. defnydd o'r amhersonol
- diffyg defnyddio Cysill yn gyson wrth baratoi adnoddau a'r gwaith yn y ffeil
- diffyg tystiolaeth i sgiliau llythrennedd ac iaith y disgyblion gael eu hymestyn